**ATODIAD C**

**Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol 2018/19**

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (Canllaw 11c) a gyhoeddwyd diwethaf yn 2010.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

> Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff yr MRP ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008.
>
> Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff yr MRP ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff MRP ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff MRP ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
>
> Ar gyfer asedau a geir trwy lesoedd cyllid neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod yr MRP yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn y rhwymedigaeth ar y fantolen.
>
> Pan wneir benthyciadau i gyrff eraill ar gyfer eu gwariant cyfalaf, ni chodir MRP. Fodd bynnag, bydd y derbyniadau cyfalaf a grëir gan yr ad-daliadau blynyddol ar y benthyciadau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu dyledion.
>
> Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2018/19 yn destun ffi MRP hyd nes 2019/20.

Yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i osod ar £5.41m.